OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 322 (Cy. 46)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A458 (Croesfan Reilffordd Moat Lane, Caersŵs a Chroesfan Reilffordd Tal-y-bont, Tal-y-bont, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Mawrth 2023* |
| *Yn dod i rym* | *20 Mawrth 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A458 (Croesfan Reilffordd Moat Lane, Caersŵs a Chroesfan Reilffordd Tal-y-bont, Tal-y-bont, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Mawrth 2023.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A470 y Drenewydd i Aberystwyth a chefnffordd yr A458 yr Amwythig i Ddolgellau;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau ar 20 Mawrth 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn ei dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Mawrth 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o gefnffordd yr A470 yng Nghaersŵs, Powys, sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o groesfan reilffordd Moat Lane hyd at bwynt 20 metr i'r de o'r groesfan reilffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A458 yn Nhal-y-bont, Powys sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r dwyrain o groesfan reilffordd Tal-y-bont hyd at bwynt 20 metr i'r gorllewin o'r groesfan reilffordd honno.